## Gwariant GAD Ysgol y Moelwyn

Defnyddir y grant hwn  er mwyn rhoi cefnogaeth ychwanegol i ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig. Y nod ydy cau`r bwlch rhwng cyflawniad disgyblion o bob cefndir. Mae`r gwaith hwn yn cynnwys:

**Cefnogaeth bersonol ac ymarferol.**

- Darparu cefnogaeth fentora a chefnogaeth bersonol.
- Rhoi cefnogaeth ychwanegol i ddysgwyr ddatblygu i fod yn unigolion hyderus, uchel eu cymhelliant sy`n falch ohonynt eu hunain a`u cymuned leol.
- Sicrhau fod gan ddisgyblion adnoddau addas i lwyddo yn yr ysgol.
- Sicrhau fod disgyblion yn cynnal presenoldeb lefel uchel yn yr ysgol.

**Cefnogaeth gwricwlaidd ac addysgol.**

- Gweithredu rhaglenni ymyrraeth effeithiol ym maes llythrennedd a rhifedd yn CA3 a phynciau penodol yn CA4.
- Darparu gwersi ychwanegol, naill ai o fewn amser ysgol, ar ôl ysgol neu/ac ar benwythnosau a gwyliau, er mwyn sicrhau fod disgyblion yn cael cefnogaeth ychwanegol effeithiol.
- Darparu cwricwlwm amgen ar gyfer disgyblion nad yw cwricwlwm arferol ysgol yn addas ar eu cyfer.

**Tracio ac asesu**

- Tracio cynnydd disgyblion yn ofalus a phenodol gan adolygu gwybodaeth yn rheolaidd.

**Hyfforddiant a datblygu systemau.**

- Hyfforddi athrawon i dargedu cynhaliaeth yn effeithiol.
- Hyfforddi cymorthyddion i ddarparu cefnogaeth effeithiol, yn arbennig ym maes llythrennedd a rhifedd.
- Gosod pwyslais cynyddol ar gydweithio effeithiol rhwng yr ysgol, y teulu  a`r gymuned.

| Meysydd | Adnoddau cyllidol | Effaith |
|---|---|---|
| Cefnogaeth bersonol ac ymarferol | £15,000 | • Gwella lefelau presenoldeb, cymhelliant, ymddygiad ac ymdrech disgyblion. |
| Cefnogaeth gwricwlaidd ac addysgol | £22,000 | • Gwella canlyniadau disgyblion o fewn profion llythrennedd a rhifedd yn CA3.<br>• Gwella canlyniadau disgyblion ar lefelau TL1, TL2, TL2+ yn CA4 a chau`r bwlch mewn perfformiad. |
| Tracio ac asesu | £2,000 | • Sicrhau fod adnoddau yn cael eu targedu yn gywir. |
| Hyfforddiant a datblygu systemau | £1,950 | • Sicrhau cynnydd pellach yn arbenigedd a sgiliau staff i addysgu a mentora disgyblion. |
| | | |
| Cyfanswm: | £40,950 | |

**Ysgol y Moelwyn PDG grant expenditure**

This grant allocation is used in order to provide additional support for pupils from more deprived backgrounds. The aim is to close the gap between the achievement of pupils from all backgrounds. This work entails:

**Personal and practical support.**

- Provide mentoring support and personal support.
- Provide additional support to help pupils develop into confident, highly motivated individuals who are proud of themselves and their community.
- Ensure that all pupils have suitable resources to succeed at school.
- Ensure that pupils maintain a high level of attendance at school.

**Curricular planning and educational support.**

- Implement effective literacy and numeracy intervention programmes in KS3 and specific subjects in KS4.
- Provide additional lessons, either during school time, after school or during the weekends and school vacation, in order to ensure that pupils are provided with additional effective support.
- Provide an alternative curriculum provision for pupils in cases where the usual school curriculum is not suitable.

**Tracking and assessment**

- Implement a detailed and specific tracking system and review progress regularly.

**Staff INSET and system development.**

- Train and provide guidance for teachers to target support effectively.
- Train and provide guidance for support team to ensure the provision of more effective literacy and numeracy support.
- Place a more prominent emphasis on effective partnership work between the school, the family and the community.

| Area | Financial resources | Effect |
|---|---|---|
| Personal and practical support. | £15,000 | • Improve attendance levels, motivation, behaviour and effort. |
| Curricular planning and educational support. | £22,000 | • Improve results of KS3 literacy and numeracy tests.<br>• Improve pupils achievement at TL1, TL2, TL2+ in KS4 and close the gap in performance. |
| Tracking and assessment | £2,000 | • Ensure that all resources are targeted effectively. |
| Staff INSET and system development. | £1,950 | • Further develop staff expertise and skills to teach and mentor pupils. |
| | | |
| Total: | £40,950 | |